31 Rhagfyr 2019

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 7 Ionawr 2020 am 6.00 o'r gloch yr hwyr yn Siambr y Cyngor, Adeilad yr Institiwt, Caernarfon i drafod materion ar y Rhaglen a ganlyn:-

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

3. **Datgan Buddiant Personol**

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol :

i. Cyngor Llawn, 3ydd Rhagfyr 2019 (**Atodiad Gwyrdd**)
ii. Panel Cyllid a Staffio 16eg Rhagfyr 2020 (**Atodiad Glas)**
(yng nghefn y Rhaglen)

6. Cyfrifon

I gymeradwyo'r biliau, rhoddion a chyflogau i'w talu

7. Cysoni cyfrifon

8. Meysydd Parcio

Cyflwyno adroddiad llafar y Clerc ar yr uchod.

9 .Praesept

Cyflwyno adroddiad gan y Clerc ar y Praesept a gyflwynwyd i'r Panel Cyllid a Staffio yn ei gyfarfod ar yr 16eg o Ragfyr (mae cofnodion y cyfarfod i'w gweld yn eitem 5(ii)).

10.Hen Fynwent Llanbeblig

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Clerc ar Fynwent Llanbeblig.

11. Adeilad yr Institiwt

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Clerc ar Adeilad yr Institiwt.

12.Adfywio Caernarfon

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Clerc ar yr uchod.

13. Cynllun Bioamrywiaeth

Cyflwyno Cynllun Bioamrywiaeth drafft ar gyfer y Cyngor.

14. Dogfen ymgynghori – Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig

Cyflwyno gwybodaeth o ran yr uchod.

15. Gwasanaeth OWL Cymru.

Cyflwyno gohebiaeth o ran yr uchod.

16. Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

Cyflwyno gohebiaeth dderbyniwyd mewn un e-bost gan Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru am faterion amrywiol fel y Fferyllfa ar y Maes a'r Gwasanaeth Fasciwlar yn yr ardal.

17. Oriel ar gyfer Caernarfon

Cyflwyno gwybodaeth o ran yr uchod.

18. Parc Coed Helen

Cyflwyno adroddiad llafar ar yr uchod.

19. Rhybuddion o Gynnig

(i) Paratoi ar gyfer ffordd osgoi Caernarfon – Bontnewydd

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Ann Hopcyn:

"Gyda'r gwaith ar ffordd osgoi Caernarfon - Bontnewydd yn debygol o ddod i ben yn gynnar yn 2022, mae'n amserol i'r Cyngor Tref ystyried yr effaith ar y dref a ffyrdd o gynllunio ar gyfer hynny."

(ii) Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol yng Nghaernarfon

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Dawn Jones:

"Gan fod digwyddiadau gwrth-gymdeithasol ar gynnydd yng Nghaernarfon, yn arbennig dros gyfnod y Nadolig, ystyried sut gall y Cyngor Tref gyfrannu tuag at leihau'r broblem."

20.Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru

Cyflwyno gwybodaeth fod Cinio Blynyddol Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru yn cymryd lle yng Nghlwb Golff Caernarfon ar nos Sadwrn, y 15fed o Chwefror.

21.Cwestiynau